Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Gofynion Mynediad Iaith Saesneg ar gyfer Astudio Academaidd

# Gofynion Mynediad Iaith Saesneg ar gyfer Astudio Academaidd

## 1. Cyflwyniad

Mae’r polisi hwn yn amlinellu’r amrywiaeth o ffyrdd y gellir bodloni gofynion mynediad safon Saesneg Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) gan fyfyrwyr rhyngwladol sy’n astudio yn y DU ac ar-lein at ddibenion astudio academaidd sy’n arwain i ddyfarniad gan y Brifysgol. Yn ogystal, efallai bydd rhaid i ymgeiswyr fodloni unrhyw ofynion iaith Saesneg a bennir gan y llywodraeth: er enghraifft, er mwyn astudio yn y DU, bydd rhaid i ymgeiswyr ddangos tystiolaeth eu bod yn bodloni gofynion Fisâu a Mewnfudo y DU (“UKVI”). Mae’r Brifysgol yn cadw’r hawl i gyfweld myfyrwyr ar unrhyw adeg yn ystod y broses ymgeisio i wirio gallu’r ymgeiswyr yn yr iaith Saesneg.

## 2. Ffyrdd o fodloni’r gofyniad Iaith Saesneg

Gall ymgeiswyr fodloni gofynion mynediad iaith Saesneg y Brifysgol ar gyfer astudio academaidd os ydynt:

I. Wedi cwblhau’n llwyddiannus gymhwyster israddedig neu ôl-raddedig cydnabyddedig[1] mewn sefydliad cydnabyddedig yn y DU neu wlad lle’r Saesneg yw iaith y mwyafrif (fel y rhestrir yn rheolau mewnfudo’r DU Atodiad B). Iaith Saesneg, adran 7.10(i)(3).

II. Wedi cwblhau cymhwyster israddedig neu ôl-raddedig cydnabyddedig[2] yn llwyddiannus mewn sefydliad cydnabyddedig trwy gyfrwng y Saesneg mewn gwlad lle nad y Saesneg yw iaith y mwyafrif (yn ôl rheolau mewnfudo’r DU Atodiad B: Adran 7.10(i)(2)) o fewn y 5 mlynedd diwethaf. Efallai y bydd ar y Brifysgol eisiau tystysgrifau, trawsgrifiadau a/neu ddogfennau yn nodi iaith y ddarpariaeth a’r asesu yn ogystal â phasio cyfweliad gydag aelod o‘r Swyddfa Ryngwladol yn llwyddiannus cyn gwneud cynnig.

III. Wedi cwblhau’n llwyddiannus o fewn y pum mlynedd diwethaf, gymhwyster cydnabyddedig ym mhwnc y Saesneg neu, lle caiff ei gymeradwyo gan y Brifysgol, gymwysterau lle mae’r Saesneg yn elfen sylweddol ohonynt (efallai y bydd angen tystysgrifau a lefelau cyrhaeddiad penodol).

IV. Wedi cwblhau'n llwyddiannus o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf, gwrs Saesneg Cyn-sesiynol gyda’r Oxford International Digital Institute, gan gyflawni'r hyfedredd gofynnol ar gyfer y rhaglen a ddewiswyd.

1 Yn cynnwys TystAU, HNC, DipAU, HND, Gradd Sylfaen, gradd Baglor, Tyst/Dip Gradd, PGCert, PGDip, Gradd Meistr, cymhwyster lefel Doethurol.
2 Yn cynnwys Tyst AU, HNC, DipAU, HND, Gradd Sylfaen, Gradd Baglor, Tyst/Dip Gradd, PGCert, PGDip, Gradd Meistr.

V. Wedi cwblhau'n llwyddiannus o fewn y pum mlynedd diwethaf, gymhwyster israddedig neu ôl-raddedig cydnabyddedig a addysgir ar-lein drwy gyfrwng y Saesneg a ddyfarnwyd yn uniongyrchol gan sefydliad cydnabyddedig yn y DU.

VI. Yn cael eu hystyried yn siaradwyr Saesneg brodorol trwy fod yn dinasyddion mewn gwlad lle'r Saesneg yw iaith y mwyafrif yn ôl rheolau mewnfudo'r DU (Atodiad B: Iaith Saesneg, adran 6.10(i)

- Antigua a Barbuda
- Awstralia
- Y Bahamas
- Barbados
- Belize
- Tiriogaethau Tramor Prydain
- Canada
- Dominica
- Grenada
- Guyana
- Jamaica
- Malta
- Seland Newydd
- St Kitts a Nevis
- St Lucia
- St Vincent a'r Grenadines
- Trinidad a Tobago
- Unol Daleithiau America

## 3. Profion Iaith Saesneg

Ar gyfer ymgeiswyr nad ydynt yn gymwys yn awtomatig o dan y meini prawf a nodwyd yn 2 uchod, bydd y Brifysgol yn ystyried ystod o brofion a chymwysterau iaith Saesneg a ystyrir yn briodol ar gyfer astudio academaidd a ddefnyddir yn eang ar draws y sector Addysg Uwch.

Fel arfer, nid yw'r Brifysgol yn derbyn tystysgrifau sy'n fwy na dwy flynedd y tu hwnt i'w dyddiad cyhoeddi, ac mae'r Brifysgol yn defnyddio gwasanaethau dilysu ar-lein neu uniongyrchol i sicrhau bod y tystysgrifau a dderbynnir yn ddilys.

Gall y profion a ganlyn fodloni'r gofynion uchod ac mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl, ymhob achos, i gynnal cyfweliad gydag aelod o'r Swyddfa Ryngwladol:

- Cambridge English: C1 Advanced. Gelwir yn ffurfiol yn Cambridge English Advanced (CAE)
- Cambridge English: B2 Business Vantage a C1 Business Higher (ar gyfer disgyblaethau busnes a chytras yn unig)
- Cambridge English: C2 Proficiency. Gelwir yn ffurfiol yn Cambridge English: C2 Proficienc (CPE)
- International English Language Testing System (IELTS) Academic a wneir mewn canolfan brofi awdurdodedig.
- Pearson Test of English Academic (PTE Academic) a wneir mewn canolfan brofi awdurdodedig.
- TOEFL iBT a wneir mewn canolfan brofi awdurdodedig.
- Oxford ELLT – Profion Global a Digital
- Profion Trinity ISE II a III a gynhelir yn y DU mewn Canolfan Brofi a gymeradwyir gan y UKVI
- LanguageCert Academic SELT neu LanguageCert International ESOL SELT B2 neu uwch
- Skills for English SELT
- Bagloriaeth Ryngwladol (IB)
- Cambridge IGCSE
- Cymwysterau penodol lle bo'r Brifysgol wedi meincnodi'r defnydd o'r cymhwyster hwnnw yn erbyn ei ddefnydd yn sector Addysg Uwch y DU a/neu ei phrofiad blaenorol ei hun o berfformiad myfyrwyr.

Lle bo'r defnydd o brawf iaith Saesneg sefydliad arall yn cael ei gynnig ar gyfer ymgeiswyr nad oes arnynt angen mynediad i'r DU, fel opsiwn amgen i'r profion iaith Saesneg a restrwyd uchod, oni bai y cafodd ei gymeradwyo eisoes gan y Brifysgol, gellir cyflwyno manylion y cymhwyster i'r Brifysgol i gynnal ymarfer i ystyried cymeradwyo'r prawf. Efallai bydd ffi gweinyddol yn daladwy i'r Brifysgol i ymgymryd â'r ymarfer.

## 4. Lefelau Cyrhaeddiad

Mae'r Brifysgol yn ystyried sgoriau cyfwerth bras o fewn Lefelau a ddiffinnir gan y Fframwaith Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer iaith (CEFR) ar gyfer profion hyfedredd iaith Saesneg a restrwyd uchod ac a fapir yn Atodiad 1:

CEFR Level B1: Astudio ar Lefel 3

CEFR Lefel B2: Graddau israddedig ac unrhyw astudio ar Lefelau 4, 5 a 6.

CEFR Lefel B2: Astudio ôl-raddedig a addysgir ar Lefel 7 ac 8 (yn cynnwys DBA a chymwysterau Doethuriaeth Broffesiynol.

CEFR Lefel B2: Graddau ymchwil ôl-raddedig ar Lefel 8.

O fewn y lefelau hyn, mae’r Brifysgol wedi pennu Sgoriau Cyffredinol, Meincnod a/neu Isafswm ar gyfer gofynion mynediad iaith Saesneg, er bod rhai partneriaid cydweithredol wedi cytuno ar sgoriau eraill ar gyfer rhaglenni astudio penodol.

## 5. Cambridge English: C1 Advanced.

Astudio ar Lefel 4 ac uwch (israddedig ac ôl-raddedig) yn ogystal â rhaglen Doethur Gweinyddiaeth Busnes a rhaglenni Doethuriaeth Broffesiynol yn unig: Isafswm sgôr o 169 neu’n uwch yn gyffredinol gydag o leiaf 162 neu’n uwch ym mhob rhan gydrannol.

## 6. Cambridge English: Tystysgrifau Busnes

Mae’r rhain yn cynnwys y Tystysgrifau Saesneg Busnes a ganlyn ac fe ellir eu derbyn ar gyfer disgyblaethau busnes a chytras yn unig:

- Cambridge English: B2 Business Vantage (BEC Vantage). Isafswm sgôr o 169 neu’n uwch yn gyffredinol gydag o leiaf 162 neu’n uwch ym mhob rhan gydrannol.
- Cambridge English: C1 Business Higher (BEC Higher). Isafswm sgôr o 169 neu’n uwch yn gyffredinol gydag o leiaf 162 neu’n uwch ym mhob rhan gydrannol.

## 7. Cambridge English Proficiency

Pennir y prawf ar Lefel 2 CEFR, felly gall pas fod yn derbyniol ar bob lefel mynediad.

## 8. International English Language Testing System (IELTS)

Derbynnir prawf IELTS Academic ar gyfer UKVI.

Gellir derbyn IELTS Academic (nid ar gyfer UKVI) o dan rai amgylchiadau penodol.

Ni dderbynnir IELTS General Training.

Mae’r Brifysgol yn argymell bod pob ymgeisydd yn ymgymryd â phrawf IELTS Academic ar gyfer UKVI. Gall ymgeiswyr sy’n cwblhau prawf Academaidd mewn canolfan brofi na chaiff ei chydnabod gan UKVI gael eu hystyried o hyd.

Y Sgôr Gyffredinol ar gyfer astudiaeth Lefel 3 yw IELTS 4.5 o leiaf (gyda Sgôr Isafswm o 4.0 neu’n uwch ym mhob un o'r cydrannau). Sylwch y gall rhai cyrsiau ar y lefel hon ofyn am Isafswm Sgôr uwch am resymau academaidd.

Y Sgôr Cyffredinol ar gyfer astudio ar Lefelau 4 i 7 (israddedig ac ôl-raddedig) yn ogystal â DBA a rhaglenni Doethuriaeth Broffesiynol yw IELTS 6.0 (gydag Isafswm Sgôr o 5.5 neu’n uwch ym mhob un o’r cydrannau). Sylwch y gall rhai cyrsiau ar y lefel hon ofyn am Isafswm Sgôr uwch am resymau academaidd.

Y Sgôr Cyffredinol ar gyfer graddau Lefel 8 Ymchwil yn unig (PhD) yw IELTS 6.5 gydag Isafswm Sgôr o 5.5 mewn gwrando a siarad ac Isafswm Sgôr o 6.5 mewn cydrannau darllen ac ysgrifennu).

Derbynnir One Skill Retake IELTS gyda IELTS Academic ar gyfer prawf UKVI.

## 9. Pearson Test of English (PTE Academic)

Derbynnir PTE Academic UKVI a wneir mewn canolfan brofi UKVI.

Gellir derbyn PTE Academic a wneir mewn canolfan brofi nad yw'n ganolfan UKVI o dan rai amgylchiadau penodol.

Ni dderbynnir PTE Academic Home Edition.

Astudio ar Lefel 3: Mae angen Isafswm Sgôr o 43 ar gyfer PTE Academic UKVI ym mhob un o'r pedair cydran.

I astudio ar Lefel 4 i 7 (israddedig ac ôl-raddedig) yn ogystal â DBA a rhaglenni Doethuriaeth Broffesiynol mae Isafswm Sgôr o 59 yn ofynnol ym mhob un o'r pedaie cydran.

## 10. TOEFL iBT

Derbynnir TOEFL iBT a wneir mewn canolfan brofi awdurdodedig.

Gellir derbyn TOEF iBT Home Edition o dan amodau penodol os nad oes opsiwn prawf arall ar gael oherwydd amgylchiadau annisgwyl.

Dim ond yn cael ei dderbyn ar gyfer astudio Lefel 4 i Lefel 7 yn ogystal â DBA a rhaglenni Doethuriaeth Broffesiynol. Rhaid cael isafswm sgôr o 72 gyda'r isafswm sgoriau a ganlyn ym mhob un o'r sgiliau cyfathrebu a ganlyn:

Darllen- Isafswm Sgôr o 18

Gwrando – Isafswm Sgôr o 17

Ysgrifennu – Isafswm Sgôr o 17

Siarad – Isafswm Sgôr o 20

Rhaid bodloni sgoriau iaith Saesneg mewn un prawf. Nid ydym yn derbyn TOEFL MyBest Score i fodloni ein gofynion iaith Saesneg.

## 11. Oxford ELLT (Prawf Lefel Iaith Saesneg)

Mae Oxford ELLT Global ac Oxford ELLT Digital ill dau'n cael eu derbyn i ddangos hyfedredd iaith Saesneg ymgeiswyr ar gyfer astudio yn y Drindod Dewi Sant ar gyfer astudiaeth Lefel 4 neu uwch.

Y Sgôr Cyffredinol ar gyfer astudio ar Lefelau 4 i 7 (israddedig ac ôl-raddedig) yn ogystal â DBA a rhaglenni Doethuriaeth Broffesiynol yw ELLT 6.0 (gydag Isafswm Sgôr o 5 neu'n uwch ym mhob un o'r cydrannau). Sylwch y gall bod rhai cyrsiau ar y lefel hon yn gofyn am Isafswm Sgôr uwch am resymau academaidd.

Y Sgôr Cyffredinol ar gyfer graddau Lefel 8 Ymchwil yn unig (PhD) yw ELLT 7 gydag Isafswm Sgôr o 5 mewn gwrando a siarad ac Isafswm Sgôr o 7 mewn cydrannau darllen ac ysgrifennu).

## 12. Trinity College London

Derbynnir cymwysterau ISE II neu III Trinity College London a wneir mewn canolfan brofi dynodedig UKVI yn y DU ac felly a ddiffinnir yn Brawf Iaith Saesneg Diogel (SELT).

Cydnabyddir y profion hyn ar gyfer pob lefel astudio.

Bydd y Brifysgol yn derbyn pas cyffredinol ISE II Trinity College London gyda theilyngdod neu uwch ym mhob rhan gydrannol.

Bydd y Brifysgol yn derbyn pas cyffredinol ISE II Trinity College London a gyda phas cyffredinol neu phasys neu uwch ym mhob rhan gydrannol.

## 13. LanguageCert

Rhaid ei wneud mewn canolfan brofi gydnabyddedig UKVI.

Mae LanguageCert Academic SELT yn gofyn am isafswm sgôr o 60 ym mhob cydran a 65 yn gyffredinol ar gyfer astudio ar Lefelau 4 i 7 yn ogystal â rhaglenni DBA a Phroffesiynol. Sylwch y gall rhai cyrsiau ar y lefel hon yn ofyn am Isafswm Sgôr uwch am resymau academaidd.

Mae LanguageCert International ESOL SELT B2 neu uwch yn gofyn am isafswm sgôr o 33/50 ym mhob un o’r pedair cydran ar gyfer astudio ar lefelau 4 i 7 yn ogystal â rhaglenni DBA a Phroffesiynol. Sylwch y gall rhai cyrsiau ar y lefel hon ofyn am Isafswm Sgôr uwch am resymau academaidd. Bydd y prawf hwn yn parhau i gael ei dderbyn ar gyfer dyddiadau cychwyn cyrsiau hyd at a chan gynnwys Mawrth 2026.

## 14. Sgiliau ar gyfer Saesneg UKVI B2 (4 cydran) SELT

Rhaid gwneud hyn mewn canolfan brawf a gymeradwyir gan UKVI.

Mae angen pasio ym mhob cydran ar gyfer astudio ar lefelau 4-7 yn ogystal â rhaglenni DBA a Phroffesiynol. Sylwch y gall rhai cyrsiau ar y lefel hon ofyn am Isafswm Sgôr uwch am resymau academaidd.

## 15. Bagloriaeth Ryngwladol

Bydd y Brifysgol yn gofyn am Lefel Uwch 5 neu Lefel Safonol 5 Iaith A neu Lefel 5 Uwch neu Lefel Safonol 5 Iaith B

## 16. Cambridge IGCSE

Mae Isafswm Gradd C (gradd 4) IGCSE mewn Saesneg fel Ail Iaith yn bodloni'r gofyniad hyfedredd Iaith Saesneg ar gyfer astudio israddedig.

## 17. Cymwysterau Penodol a Dderbynnir

Mae'r Brifysgol yn adolygu'r cymwysterau Iaith Saesneg mae'n eu derbyn yn rheolaidd yn unol â'r defnydd cyffredinol yn sector Addysg uwch y DU a'i phrofiad ei hun o berfformiad myfyrwyr. Gellir alinio hyn gyda gweithgarwch recriwtio bwriedig fesul gwlad. Yn dilyn adolygiad o berfformiad myfyrwyr o wledydd penodol yn y gorffennol ac adolygiad o arfer sector Addysg Uwch y DU, derbynnir y cymwysterau gwlad-benodol a ganlyn.

**Tabl o gymwysterau Penodol**

| Cymhwyster | Lefel |
|---|---|
| Austrian Reifeprüfung/Matura | Gradd 2 (Gut) neu uwch mewn cydrannau Ysgrifenedig a Llafar |
| Belgian Certificat d'Enseignement Secondaire / Diploma van hoger Secundair Onderwij / Abschlusszeugnis der Oberstufe des Sekundarunterrichts | Gradd 15 allan o 20 neu 70%, neu uwch |
| Czech Maturitni Zkousce / Maturita | Gradd 3 neu uwch |
| Danish Bevis for Studentereksamen (STX) | Gradd 7 neu uwch mewn cydrannau Ysgrifenedig a Llafar |
| French Baccalauréat l'Option Internationale, English (dyfarnwyd tan 2023), | Gradd 12 neu uwch |
| Baccalauréat Français International (BFI) (dyfarnwyd o 2024), | Gradd 12 neu uwch |
| French Baccalauréat Général, English LV1 or A | Gradd 14 neu uwch |
| German Abitur, English | Gradd 12 neu uwch |
| Netherlands VWO, English | Gradd 7 neu uwch |
| Norwegian Vitnemål for videregående opplæring, English | Gradd 4 neu uwch |
| Swedish Fullstandigt fran Gymnasieskolan neu Hogskoleforberedand, English | Gradd C neu uwch |
| Swiss Certificat de Maturité / Maturitätszeugnis / Maturitätsausweis / Attestato di Maturità | Gradd 4.5 neu uwch |
| Cambridge Assessment International Education GCE O Level, English | Gradd C neu uwch |
| Botswana General Certificate of Secondary Education, English | Gradd C neu uwch |

| | |
|---|---|
| Cameroon GCE O Level, English | Gradd C neu uwch |
| HKDSE English Language | Gradd 4 neu uwch yn gyffredinol, gyda Gradd 4 neu uwch ym mhob cydran |
| Indian Standard XII, English Language ac eithrio byrddau arholi Punjab a Haryana**.** | Marc pasio cyffredinol o 70% neu uwch ar gyfer astudiaeth Israddedig. |
| Kenyan Certificate of Secondary Education (KCSE), English | Gradd B neu uwch. Mae'r cymhwyster hwn wedi'i eithrio o'r terfyn amser pum mlynedd arferol. Sylwch nad ydym yn derbyn Gradd B- yn KCSE Saesneg. |
| Malaysian 119 syllabus (UCLES) | Gradd C neu uwch |
| Namibian Senior Secondary Certificate (NSSC), Higher English | Gradd C neu uwch |
| Singapore Integrated Programme (IP) | Dylai myfyrwyr fynd yn eu blaen i gwblhau Lefel A neu gymwysterau IB (mewn unrhyw bwnc a addysgir yn Saesneg)<br>Mae angen copi wedi'i sganio arnom o'r trawsgrifiad IP fel tystiolaeth ei fod wedi'i gwblhau |
| South African National Senior Certificate (SANSC) | Gradd 4 neu uwch |
| SQA HND | Pas, ynghyd â phasio'r cyfweliad gyda'r Swyddfa Ryngwladol yn llwyddiannus. |
| Tanzanian Certificate of Secondary Education / Advanced Certificate of Secondary Education (dyfernir gan y National Examinations Council of Tanzania), English Language | Gradd C neu uwch |
| Ugandan Certificate of Education (UCE) | Gradd 6 neu uwch |
| WAEC West African Senior School Certificate (WASSCE), English | Gradd C neu uwch. Mae'r cymhwyster hwn wedi'i eithrio o'r terfyn amser pum mlynedd arferol |
| West Indies Caribbean Secondary Education Certificate, English A | Gradd III (3) neu uwch |
| Zambian General Certificate of Education, English | Gradd 6/C neu uwch |

Gellir ystyried cymwysterau cenedlaethol eraill fesul achos. Bydd yr holl gymwysterau addysg a restrir yn adran 17 yn cael eu derbyn am 5 mlynedd o'r dyddiad asesu diwethaf, Fodd bynnag, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i gyfweld unrhyw ymgeiswyr i wirio eu gallu iaith Saesneg ar unrhyw adeg yn ystod y broses ymgeisio.

## 18. Adolygu’r Polisi

Mae’r Brifysgol yn adolygu’r cymwysterau iaith Saesneg y mae’n eu derbyn yn rheolaidd, a gallai’r polisi uchod newid yn unol â pherfformiad myfyrwyr, datblygiadau yn y sector neu fel y bo’n ofynnol gan newidiadau yng nghanllawiau noddi UKVI.

Cymeradwywyd
Mawrth 2025